

# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 08.12.21 – 7.00 yn Y Ganolfan, Llwyngwril Yn dilyn rheolau diogelwch Covid-19

**Presennol:** Kevin Goodchild – Cadeirydd (KG) Keith Carroll – Is gadeirydd (KC), Huw Davies (HD), Dylan Thomas (DT), Jenny Warne (JW) Geraint Edwards (GE), Geraint Micah (GM), David Griffiths (DG), John Griffiths (JG), Ian Williams (IW), Debbie Taylor-Bond (DTB) (Clerk), Cllr Louise Hughes. (LH)

### 1. Ymddiheuriadau: Dim

- a) **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan ddiolch i'r aelodau oedd wedi rhoi eu hamser i gael y Coed Nadolig i fynny yn Llwyngwril a Rhoslefain.
- b) **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol (10.11.21):** Rhai newidiadau i gael eu gwneud. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod fel rhai cywir, ar ol gwneud y newidiadau.  
**Cynnig** – Geraint Edwards    **Eilio** – David Griffiths    **Arwyddwyd** – Kevin Goodchild.

### 2. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (10.11.12):

- a) **Prosiect Cymunedau Bach** – angen asesiad i weld os byddai'r prosiect yn cefnogi newid y meinciau pren i rai plastig – **I'w weithredu gan DTB**
- b) **Newid Cyfrif Banc** – aros am gweinyddiaeth y cyfrif newydd gael ei gwblhau gan Banc Nat West.  
**I'w weithredu gan DTB**
- c) **Tyrchod daear yn ol yn y cae chwarae** – gwaith yn parhau. **I'w weithredu gan GM.**

### 3. Gohebiaeth:

- a) **Praesept 2022** – ffurflen gais i'w chyflwyno erbyn 28.01.22. Cafwyd drafodaeth ynglyn ar cynnydd blynyddol. Prasespt presennol yn £9,800. Y codiadau chwyddiant cyfredol a argymhellir gan Gyngor Gwynedd yw 4.8%. Mae hyn i'w gymhwyso i'r cais. **Cynnig** – GE    **Eilio** - JG.
- b) **Etholiadau lleol - Cymru 2021**- Cadarnhad o'r rheolau diwygiedig wedi eu hafnon i'r cynghorwyr.
- c) **Nodyn Cyngor Technegol TAN 15 – datblygiad llifogydd ac erydu arfordirol.** Cadarnhad y bydd y gwybodaeth a'r cyngor diweddaraf yn cael eu ddisbarthu pan fydd y rheolau newydd a chynllun yn dangos yr ardaloedd o bryder wedi ei gwblhau.

### 4. Materion Cynllunio: Dim wedi eu derbyn.

### 5. Adroddiad Ariannol: Adolygiad ariannol wedi ei gwblhau.

Derbyniwyd Adroddiad Mis Tachwedd 2021 yn gywir.

**Cynnig** – Huw Davies    **Eilio** – Ian Williams    **Arwyddwyd** – Kevin Goodchild.

- Anfonebau i'w talu Mis Rhagfyr – Cyngor Gwynedd – toiledau cyhoeddus yn Llwyngwrl = £2,000.00  
David Griffiths – cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus = £ 200.00.

6. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim.

7. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Adroddiad gan Louise Hughes.

8. **Unrhyw Fater Arall:**

- Coed Nadolig** – Gwaith trydanol angen cael ei wneud i'r goleuadau ar y coed nadolig.  
Trefnu tynnu'r coed lawr Ionawr 08.01.22- os fydd y tywydd yn ffafriol. **I'w weithredu gan – KC/GE.**
- Offer ffitrwydd i'r cae chwarae yn Llwyngwrl** – cytunwyd ar dri darn o offer ffitrwydd i'r safle, ac eu lleoliad. Siec wedi ei dderbyn yn barod i roi yng nghyfrif banc newydd y Cynogr Cymuned gyda Banc Nat West.
- Brechlynnau Booster Coid-19** – Canolfan Iechyd Tywyn ddim yn cynnig y gwasanaeth yma ar hyn o bryd. Meddygfa Dolgellau yn darparu'r gwasanaeth. Cynghorir bawb i aros am apwyntiad am ei brechlyn booster, er y gall y cyngor yma newid.
- Afon Gwrl** – rhaid cadw llygad ar y safle a chysylltu a Cyfoeth Naturiol Cymru i holi pwy sydd yn gyfrifol os bydd angen gwneud rhagor o waith ar geg yr afon.
- Historic Points – Cod QR:** dylai fod y "Cod QR" wedi cael ei osod ar giat yr Eglwys, Llwyngwrl.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher - 19.01.22 - am 7 o'r gloch yn "Y Ganolfan"**

**Arwyddwyd**

**Cadeirydd .....** **Dyddiad .....**